



Polisi Gwisg Ysgol

Pennaeth:	Mrs Ceri Morgan
Cadeirydd y Llywodraethwyr:	Dr Huw Williams
Dyddiad y Polisi:	Hydref 2025
Cyfrifoldebau:	Pennaeth, Llywodraethwyr

Dyddiad y Polisi Gwreiddiol:	Hydref 2022
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Tymor yr Hydref 2027

Cyflwyniad

Polisi Ysgol Hamadryad yw bod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol wrth fynychu'r ysgol ac wrth fynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu fewn ac allan i oriau arferol yr ysgol.

Nodau ac amcanion

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
- creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned sydd yn perthyn i'r ysgol;
- ymarferol, taclus a smart;
- adnabod y plant â'r ysgol;
- gwneud i bob plentyn deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
- cael eu hystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol sydd hefyd yn werth da am arian;
- yn cael ei chynllunio gydag iechyd a diogelwch mewn golwg.

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan greiddiol o ymroddiad yr ysgol tuag at gyfle cyfartal a chynhwysiad. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi i holl ddisgyblion yr ysgol rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth. Yn ogystal â hyn credwn mai creu amgylchedd dysgu diogel a disgybledig yw'r cam cyntaf mewn unrhyw ysgol sydd yn anelu at y cyflawniad uchaf. Bydd gweithredu'r polisi gwisg ysgol hwn yn helpu i gynnal safonau academiaidd uchel trwy leihau ymddygiad aflonyddgar, yn hyrwyddo parch disgyblion tuag at eu hunain ac eraill ac adeiladu ysbryd cymunedol. Rydym hefyd yn teimlo bod gwisgo gwisg ysgol yn helpu lleihau effaith gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol.

Meithrin i Flwyddyn 6

Disgwylir i bob disgybl wisgo gwisg swyddogol yr ysgol yn ddyddiol. Nid oes yn rhaid i'r wisg gynnwys bathodyn yr ysgol.

Siop YC Sports yw cyflenwyr swyddogol y wisg ysgol: *YC Sports, 156 Cowbridge Road East, Treganna, Caerdydd, CF11 9DU. 029 2022 0246.*

Mae croeso i **bob** disgybl wisgo pa bynnag gyfuniad eitemau addas o'r rhestr islaw. Er eglurdeb mae croeso i bob disgybl wisgo trowsus, felly hefyd i unrhyw ddisgybl wisgo sgert/ffrog.

Gaeaf

- Siwmpwr / cardigan: glas (yn dangos bathodyn yr ysgol os dymunir)
- Crys polo: gwyrddlas (yn dangos bathodyn yr ysgol os dymunir)
- Sgert/trowsus/siorts: llwyd tywyll (gall plant Meithrin wisgo trowsus ymarfer corff plaen llwyd tywyll)
- Esgidiau: du (caniateir esgidiau hyfforddi tywyll – dim lliwiau llachar)
- Sanau: du/llwyd

Haf

- Siwmpwr / cardigan: glas (yn dangos bathodyn yr ysgol os dymunir)
- Crys polo: gwyrddlas (yn dangos bathodyn yr ysgol os dymunir)
- Ffrog las a gwyn (streipiog neu siec)
- Sgert/trowsus/siorts: llwyd tywyll
- Esgidiau: du neu sandalau call (caniateir esgidiau hyfforddi tywyll – dim lliwiau llachar)
- Sanau: gwyn/du/llwyd

Gwisg Addysg Gorfforol (Derbyn – Blwyddyn 6)

Dylai plant wisgo gwisg Addysg Gorfforol ar ddiwrnodau pan fo ganddynt wersi Addysg Gorfforol (2 ddiwrnod yr wythnos), a dim ond ar y diwrnodau hynny. Bydd pob plentyn yn aelod o lys ar gyfer amrywiol weithgareddau'r ysgol a dylent wisgo crys-T yn cyfateb â lliw eu llys fel gwisg Addysg Gorfforol. Nid oes yn rhaid i'r crys-T gynnwys bathodyn yr ysgol.

Y wisg Addysg Gorfforol yw:

- Crys-T Addysg Gorfforol yn lliw'r llys
- Siwmpwr / cardigan: glas (yn dangos bathodyn yr ysgol os dymunir)
- Trowsus neu siorts hyfforddi: du neu llwyd tywyll heb logo amlwg
- Sanau: gwyn/du/llwyd
- Esgidiau: esgidiau addas ar gyfer ymarfer corff

Cynrychioli'r Ysgol

Bydd achlysuron lle y bydd gofyn i blant fynychu ymweliadau penodol neu i gynrychioli'r ysgol ac y bydd disgwyliadau penodol ynghylch disgwyliadau gwisg ysgol. Byddwn yn cyfathrebu â chi ymlaen llaw ynghylch y rhain a gallant gynnwys:

- Siwmpwr / cardigan: glas (yn dangos bathodyn yr ysgol os dymunir)
- Crys polo: gwyrddlas (yn dangos bathodyn yr ysgol os dymunir)
- Ffrog las a gwyn (streipiog neu siec)
- Sgert/trowsus/siorts: llwyd tywyll
- Esgidiau: du (dim sandalau)
- Sanau: du/llwyd

Gwisg Ysgol heb logo'r ysgol

Deallwn ei fod yn gostus i brynu gwisg swyddogol yr ysgol i'w wisgo pob dydd yn yr ysgol ac felly rydym yn caniatáu gwisgo siwmpwr, cardiganau, crysau polo a chrysau-T addysg gorfforol sydd heb logo'r ysgol yn yr ysgol. Fodd bynnag, disgwyliwn fod:

- pob siwmpwr, cardigan neu grys-polo yn cyfateb a lliwiau arferol glas a gwyrddlas yr ysgol.
- pob crys-T a wisgir ar ddiwrnodau addysg gorfforol heb logo amlwg ac yn cyfateb â lliwiau llys y plentyn. Mae hi hefyd yn dderbyniol i wisgo crysau-T gwyn plaen ar ddiwrnodau addysg gorfforol.
- pob siwmpwr, cardigan neu grys-polo a brynir heb logo'r ysgol yn blaen ac heb logos amlwg. Mae hyn yn unol â'n hymrywmiad i gydraddoldeb a chynwysiant.

- gan bob plentyn fynediad at un set o wisg ysgol swyddogol (h.y. crys-polo a chardigan neu siwmpwr sydd â logo swyddogol yr ysgol) i'w defnyddio ar achlysuron lle'u bod yn cynrychioli'r ysgol.

Gemwaith

Ar sail iechyd a diogelwch, nid ydym yn caniatáu i blant wisgo gemwaith yn ein hysgol. Yr eithriadau i'r rheol hon yw stydiau clustdlysau mewn clustiau wedi'u tyllu, a gwrthrychau o arwyddocâd crefyddol neu wrthrychau sy'n angenrheidiol am resymau meddygol. Gofynnwn i'r plant naill ai i dynnu'r gwrthrychau hyn yn ystod Addysg Gorfforol a gemau, neu eu gorchuddio â phlaster, i'w hatal rhag achosi anaf. Nid oes hawl gan aelodau staff i dynnu nac ailosod clustdlysau; bydd disgwyl i'r disgyblion allu gwneud hynny'n annibynnol

Gall disgyblion wisgo oriawr i'r ysgol os ydynt yn dymuno.

Gwallt

Er mwyn diogelwch, taclusrwydd a glendid (ac osgoi dal llau pen) byddwn yn annog pob disgybl (yn ferched neu'n fechgyn) sydd â gwallt hir i'w glymu'n ôl yn daclus am resymau glendid.

Mae Ysgol Hamadryad wedi mabwysiadu'r Cod Eurgylch. Rydym yn cydnabod ac yn dathlu hunaniaeth ein staff a'n disgyblion ac yn hyrwyddo hawl staff a myfyrwyr i gofleidio pob steil gwallt Affro. Rydym yn croesawu gwallt Affro-wead a wisgir ym mhob arddull gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, affros, locs, troeon, braids, cornrows, pylau, gwallt wedi'i sythu drwy gymhwyso gwres neu gemegau, gwehyddu, wigiau, pendefigion, a lapio.

Esgidiau

Dymuniad yr ysgol yw bod pob plentyn yn tyfu i fod yn oedolyn iach. Er mwyn hybu iechyd corfforol a symudedd, ni chaniateir esgidiau sy'n addas i'w gwisgo yn ddyddiol i'r ysgol. Ni chaniateir y canlynol: esgidiau 'slip-on', 'fflip fflops', 'crocs', sandalau agored neu esgidiau â gwadnau uchel neu wadnau pren. Gofynnwn i blant wisgo esgidiau duon neu esgidiau ymarfer duon fel y nodwyd yn y prospectws.

Rôl Rhieni a Gwarcheidwaid

Gofynnwn am gefnogaeth pob rhiant a gwarcheidwad wrth ddarparu'r wisg briodol. Credwn fod cyfrifoldeb gan ein rhieni a gwarcheidwaid i ddanfôn eu plant at yr ysgol wedi'u gwisgo'n addas ac yn barod i wynebu gwaith y diwrnod mewn dillad glân a thaclus, gan gynnwys esgidiau addas.

Rôl y Pennaeth a Staff yr Ysgol

Disgwylir i'r Pennaeth a'r holl staff i weithredu'r polisi hwn. Mae gan Bennaeth a staff yr ysgol yr hawl i benderfynu ar yr hyn sydd yn dderbyniol ac yn annerbyniol i'w wisgo i ddod i'r ysgol oddi fewn i fframwaith y polisi hwn. Hefyd mae gan y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth neu Uwch Aelod o Dîm Arwain (yn absenoldeb y Pennaeth neu'r Dirprwy) y cyfrifoldeb i atal plentyn i

fynd allan i chwarae os nad ydynt yn gwisgo esgidiau addas gan taw diogelwch a lles y plentyn sydd yn hanfodol.

Disgwylir i'r Pennaeth i dynnu sylw darpar rieni at y polisi gwisg ysgol naill ai trwy gyflwyno'r prospectws yr ysgol iddynt (fel rhan o'r pecyn croeso) neu trwy gyflwyniad i ddarpar rieni mewn cyfarfodydd croeso.

Disgwylir i'r Pennaeth siarad ag unrhyw riant nad sy'n cydymffurfio â'r polisi. Os nad oes newid yn y sefyllfa, disgwylir i'r Pennaeth nodi hyn gyda'r Corff Llywodraethol.

Rôl y Llywodraethwyr

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn cefnogi'r Pennaeth wrth weithredu'r polisi hwn. Ystyrir pob sylw gan rieni a phlant am y polisi mewn modd sensitif a theg. Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw hi i sicrhau bod y wisg ysgol ddewisedig yn cwrdd â rheoliadau cyfleoedd cyfartal ac i gydymffurfio â'r canllawiau ar wisg ysgol a gyflwynir o dro i dro gan Lywodraeth Cymru neu awdurdod priodol arall. Sicrheir bod ein disgyblion wedi'u gwisgo'n synhwyrol, mewn dillad diogel, ymarferol ac o ansawdd dda gan y Llywodraethwyr. Os oes rhesymau crefyddol, meddygol neu o ran anabledd yn gofyn i blentyn wisgo mewn modd arbennig, yna trafodir hyn gyda'r rhieni mewn dull sensitif a synhwyrol.

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: H.Williams

Llofnod y Pennaeth: C.Morgan

Dyddiad: Hydref 2025